Ailalluogi

Tachwedd 2019

Rhaglen o asesiadau a chymorth byrdymor wedi'u llunio i'ch helpu i adennill neu gadw'ch annibyniaeth yw ailalluogi.

Mae ailalluogi'n datblygu'r hyn y gallwch ei wneud ac yn eich cynorthwyo i adennill eich sgiliau, eich hyder a'ch annibyniaeth i aros yn eich cartref eich hun.

Mae ailalluogi'n wasanaeth a gynigir am ddim am gyfnod byr. Gall bara wythnos yn unig neu hyd at uchafswm o chwe wythnos, yn dibynnu ar eich anghenion.

Mae ailalluogi'n anelu at gynyddu'ch annibyniaeth hirdymor, eich dewisiadau a gwella ansawdd eich bywyd.

Sut mae Ailalluogi'n gweithio?
Mae'r gwasanaeth ailalluogi yn eich helpu i wneud pethau drosoch eich hun, yn hytrach na gwneud pethau i chi.

Y nod gyffredinol yw eich helpu i ddygymod â byw yn eich cartref eto.

Mae'r math o gymorth a ddarperir yn cael ei addasu'n arbennig yn unol â'n hasesiad o'ch anghenion unigol. Er enghraifft:

- Help â gofal personol
- Cymorth ymarferol i baratoi prydau bwyd
- Atgoffa i gymryd meddyginiaeth neu reoli meddyginiaeth
- Darparu offer neu dechnoleg gynorthwyol gyda help i ddeall sut i'w defnyddio
- Dysgu ymarferion i'ch helpu i symud eto ac i roi nerth a hyder i chi - gyda chymorth ac anogaeth i wneud yr ymarferion
- Darganfod atebion ymarferol i broblemau sydd efallai'n cyfyngu ar eich annibyniaeth.
- Cynyddu eich hyder i gymryd rhan mewn grwpiau cymunedol.

Ar gyfer pwy mae'r gwasanaeth Ailalluogi?
Gall ailalluogi helpu nifer o wahanol bobl gan gynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau corfforol neu namau synhwyraidd a phobl ag anawsterau iechyd meddwl neu anableddau dysgu.

Mae angen i chi fod yn byw yn Sir y Fflint a bod dros 18 oed.

Mae'n bosibl y bydd oedolion sy'n chwilio am wasanaeth gofal cymdeithasol yn cael gwasanaeth Ailalluogi cyn y bydd unrhyw wasanaeth gofal hirdymor yn cael ei gynllunio. Bydd asesiad yn cael ei gynnal i ganfod y dull gweithio gorau i chi.

Beth sy'n digwydd os bydd angen gofal parhaus arnaf?
Dim ond cymorth byrdymor sy'n cael ei ddarparu gan y gwasanaeth Ailalluogi. Ar ôl i chi ddechrau byw mor annibynnol ag sy'n bosibl, daw'r rhaglen Ailalluogi i ben. Os oes gennych anghenion gofal parhaus, cewch eu trafod er mwyn llunio pecyn gofal os yw hynny'n briodol.

Mae'n bosibl y bydd angen cynnal Asesiad Ariannol ar gyfer unrhyw drefniant gofal hirdymor ac mae'n bosibl y bydd raid i chi dalu amdano.

Sut i wneud cais am wasanaeth Ailalluogi

Cysylltwch â Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01352 803444 a dweud wrthynt y meysydd lle hoffech chi fod yn fwy annibynnol neu'n hyderus a byddwn yn asesu eich anghenion gyda chi.

Taflenni ffeithiol eraill a allai fod yn ddefnyddiol:
- Talu am Wasanaethau Cymdeithasol
- Eich Hawl i Ganmol a Chwyno

Am fwy o wybodaeth, gan gynnwys copïau o'r taflenni uchod, cysylltwch â:

Gwasanaethau Cymdeithasol
Preswylfa, Hendy Road, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1PZ.
spoa@flintshire.gov.uk

☎ 03000 858 858
Rhif ffôn mewn argyfwng y tu allan i oriau yw: **0845 053316**

Mae ein taflenni ar gael ar-lein hefyd ar:
www.siryfflint.gov.uk/cymdeithasol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for an English version. Cyf: A19